Ardal Llandudno – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
4 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng A. Barratt
Cyng W. E. Jones

1. Rhagymadrodd

Darparodd DB ragymadrodd i'r cyfarfod ac esboniodd beth fyddai'n ei gynnwys gan gynnwys yr elfen gweithdy.

2. Cyflwyniad

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Esboniwyd bod maint ysgol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla a ddarparwyd gan LICC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Nid oedd arwynebedd llawr y dosbarth meithrin, os oes un, wedi'i gynnwys. Dim ond disgyblion llawn amser a ystyriwyd yn nhermau'r cyfrifo hwn.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut oedd yn cael ei gyfrifo – edrychwyd ar niferoedd derbyniadau'r tair blynedd diwethaf a defnyddiwyd y cyfartaledd i ragamcanu niferoedd. Dros y 12 mlynedd diwethaf, mae amcanion pob ysgol wedi bod o fewn 1% i fod yn gywir.

Cynhyrchwyd rhestr 'addas i'r pwrpas' trwy edrych ar fwletin adeiladu ac awgrymiadau a gafwyd o gyfarfodydd dechreuol. Nid oedd yn rhestr o hanfodion, ond pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn.

Sesiwn Cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = Sylw)

C: Mae Ysgol Craig y Don yn orlawn, pam na ellir symud disgyblion o'r fan honno i ysgolion sydd â lleoedd gwag ?
A: Derbyniwn fod rhai ysgolion yn llawn a bod ysgolion yn derbyn ar ôl apêl gan rieni. Rydym yn siarad â'r ysgolion hyn sy'n llawn er mwyn ceisio rhwystro hyn rhag digwydd a sicrhau eu bod yn dilyn y polisi derbyniadau.
S: Mae Ysgol Craig y Don yn parhau i dderbyn plant er eu bod yn llawn tra na fo Ysgol Tudno yn derbyn plant er mwyn cadw maint dosbarthiadau yn llai na 30. Mae Tudno yn cadw at y rheolau ond nid Craig y Don.
A: Diolch am yr wybodaeth hon, eir ar ôl y mater.
C: A allwch chi sicrhau pe bai Ysgol Ffordd Dyffryn ac Ysgol Tudno yn cael eu cyfuno i lunio un ysgol newydd na fyddai swyddi yn cael eu colli a'u heffeithio?

A: Efallai na fydd unrhyw newid yn digwydd am 5-15 mlynedd. Pe bai'r ysgolion yn cael eu cyfuno, byddai angen i ni edrych ar nifer y plant a nifer y dosbarthiadau fyddai eu hangen. Fodd bynnag, pe bai'r un nifer o blant a dosbarthiadau yn yr ysgol a gyfunwyd, byddai hyn yn golygu y byddai angen yr un nifer o athrawon. Er mwyn rhesymoli staff, fe allem edrych ar staff yn gadael yn naturiol, e.e. ymddeol. Cyn gynted y gwyddom ddymuniad pob ardal, byddwn yn sefydlu tîm adnoddau dynol i ystyried materion staffio.

S: Mae pryderon ynghylch gwneud staff yn ddigyflog.

A: Cyn gynted y byddwn yn cyrraedd y cam ble byddwn yn cynnig dewisiadau i chi, byddwn yn sefydlu tîm adnoddau dynol i weithio gydag undebau.

C: Mae'r ddwy ysgol yn agos at ei gilydd a phe baent yn cael eu cyfuno byddai'n ysgol fawr iawn. Beth fyddai maint yr ysgol ?

A: Ni allwn roi sylwadau ar y funud gan nad ydym yn gwybod ond rydym wedi cau tair ysgol yng Nghonwy a'u cyfuno i lunio Ysgol Porth y Felin ac mae hyn wedi gweithio.

C: Os ydym yn mynd i godi ysgol newydd, ble fydd hi?

A: Nid ydym wedi ystyried hyn eto. Pe bai cyfuno'r ysgol yn cael ei ddewis, byddai'n rhaid i ni gynnal astudiaeth ymarferoldeb ynghylch y tir sydd ar gael yn yr ardal.

C: Beth fyddai'n digwydd i'r hen ysgolion pe bai un newydd yn cael ei hadeiladu ?

A: Rydym wedi bod yn cydweithio efo'r Tîm Datblygu Cymunedol ar y cynllun ac maent yn edrych ar anghenion y trigolion ble bydd newidiadau efallai'n cael eu gwneud.

C: A allech chi adeiladu ysgol newydd ar safle sy'n bodoli ?

A: Gellid ystyried hyn fel rhan o'r astudiaeth ymarferoldeb.

C: A yw'r cynllun hwn yn ymwneud ag arian ac a oes penderfyniad wedi'i wneud?

A: Ni wnaed unrhyw benderfyniad eto.

C: A allech helaethu un ysgol i'w gwneud yn fwy ?

A: Mae hyn yn bosibilrwydd a gallai astudiaeth ymarferoldeb edrych ar hyn.

S: Rydych wedi gofyn i ni heddiw beth sydd gennym ei eisiau yn y dyfodol, byddai'r mwyafrif ohonom yn dweud wrthych am adael pethau fel y maent.

S: Os byddwch yn cynyddu maint yr ysgol bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar safonau addysgol.

S: Ni edrychir ar rai ysgolion mewn ardaloedd eraill. Ar ddiwedd y dydd pe bai ein hysgolion ni yn llawn, ni fyddent o dan adolygiad dechreuol.

S: Beth am Ysgol San Siôr ac Ysgol Bodafon, nid yw'r rhain byth yn cael eu hadolygu.

C: Mae Ysgol Tudno a Ffordd Dyffryn yn hen adeiladau, oni fyddai'n rhatach i fuddsoddi yn y ddau adeilad ar wahân ?

S: Pryder y bydd unrhyw newid yn arwain at leihau dewis y rheini. Ni fydd ysgol fawr yn arwain at rieni yn anfon eu plant yno.

S: Eisiau i blant fynd i ysgol efo dosbarthiadau llai.

S: Mae'r ddwy ysgol yn cydweithio'n dda ar y funud ac mae hyn yn achosi gwaed drwg rhyngddynt. Mae hefyd yn arwain at rieni yn peidio dewis yr ysgolion hyn gan eu bod yn meddwl y byddant yn cau.

S: Angen ystyried effaith hyn ar sylw fydd y wasg yn ei roi.

A: Cymerir eich holl bwyntiau i ystyriaeth.

S: Dylai ysgolion eglwys gael eu hadolygu hefyd gan nad ydynt yn effeithio ar ein niferoedd.

S: Mae lleoedd gwag yn fantais i ni ond maent yn cael eu nodi fel problem yn y ddogfen.
C: Os dywedwn 'na' i gyfuno, a fyddwch chi'n cymryd hyn i ystyriaeth ?
A: Byddwn.
S: Fe wnaethom ni gyfarfod 20 mlynedd yn ôl i drafod yr un pynciau. Nid oes dim yn digwydd i ysgolion ffydd ac ni thybiwn fod hyn yn deg.
A: Rhaid gwneud yr ymgynghoriad nawr gan fod yn rhaid i bob awdurdod yng Nghymru fod â strategaeth yn ei lle i gael arian ar gyfer gwelliannau cyfalaf.
C: Mae'r ymgynghori'n costio arian?
A: Mae pris bob amser i ddemocratiaeth. Mae angen i ni ymgynghori â chi gan fod angen i ni roi strategaeth yn ei lle a fydd yn cael ei chefnogi'n lleol a'i phrofi'n gadarn.
S: Dylai arian ar ymgynghori gael ei wario ar welliannau ysgol.
C: A weithiwyd allan cost gwelliannau?
A: Rydym wedi gweithio allan costio dod â'r holl 61 ysgol i safon 'addas i'r pwrpas' a byddai hyn tua £60 miliwn. Gwyddom na fydd LlCC yn rhoi'r holl arian hwn i ni.
S: Gwnaed gwelliannau yn Ysgol Ffordd Dyffryn, bydd hyn yn wastraff o arian os byddwch yn cyfuno'r ysgolion.
A: Mae Ffordd y Dyffryn wedi bod yn disgwyl am yn hir am y gwelliannau hyn ac mae'r plant yn eu haeddu. Efallai na fydd y newidiadau yn y strategaeth yn eu lle am 5-15 mlynedd ac felly rhaid parhau i wella ysgolion ar gyfer ein plant yn y cyfamser.
S: Dim eisiau colli agosatrwydd safleoedd llai.

Esboniodd GT y gweithdy a gofynnwyd i randdeiliaid pob ysgol drafod pob taflen.

3. Ymateb o'r gweithdy

<u>Ysgol Ffordd Dyffryn</u>

<u>Anghenion a lles staff / plant</u>

- A ellir gwneud rhywbeth i sicrhau rheini na wnaed rhywbeth h.y. trwy ddatganiad mewn papur newydd
- Nifer disgyblion yn cynyddu er gwaethaf proffwydo gostyngiad
- Adeiladu a gwella'r hyn sydd gennym – mae'n gweithio
- Pryderu oherwydd sylw'r wasg / cyhoeddusrwydd na fydd y rheini yn cysylltu â'r ysgol felly ni fydd niferoedd yn cynyddu
- Byddai ysgol wedi'i chyfuno yn rhy fawr a brawychus i blant ifanc
- Pryderon ynghylch rhieni'n symud eu plant o'r ysgol oherwydd cyhoeddusrwydd
- Nid oes gennyf eisiau i fy mhlant gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau llawn
- Staff yn pryderu am ddiogelwch swyddi

- Gadael y ddwy ysgol fel y maent, pam newid yr hyn sydd wedi gweithio am flynyddoedd
- Rydym yn hapus fel ag yr ydym
- Gadewch lonydd i'n hysgolion, mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg ardderchog nad oes angen ei newid
- Pleidleisiwn 'na'
- Stopiwch wneud Tudno a Ffordd Dyffryn i edrych yn ddrwg, dangoswch y gwir hefyd am Craig y Don
- Dylai datganiad gan yr Awdurdod Addysg roi terfyn ar y 'codi bwganod' ynghylch cau
- Hapus fel yr ydym
- Mae fy merch, am y tro cyntaf erioed, yn hapus yn ei chweched flwyddyn o addysg yn Nhudno (ond wedi bod yno blwyddyn)
- Nid yw cau yn ddewis
- Mae plant ysgolion bach yn dod i adnabod pob disgybl ac mae'r rhai hŷn yn edrych ar ôl y rhai iau gan wneud cymdeithas ofalgar
- Nid ysgolion ardal yw'r ffordd ymlaen
- Ni fydd anghenion unigol yn cael eu cyfarfod ar raddfa fawr
- Mae pob plentyn yn wybyddus yn bersonol / perthynas agos
- Mae'r plentyn yn fwy hyderus mewn amgylchedd llai
- Lles rhieni – byddai'r berthynas yn dirywio mewn ysgol fwy
- Nid yw'r ysgol ar brif ffordd, annog plant i gerdded / mynd ar gefn beic i'r ysgol
- Mae plant meithrin rhan amser nawr yn cael cynnig pryd ysgol, sy'n caniatáu i blant aros trwy'r dydd
- Ysgolion iach
- Buddsoddwyr mewn Pobl
- Uned GYC yn yr ysgol, gan fod lle ar gael

<u>Materion cymdeithasol</u>

- Clwb brecwast
- Clwb ar ôl ysgol
- Nyrs ysgol ar gael bob dydd Mawrth i rieni
- Heddlu cymunedol
- Adnoddau ailgylchu
- Nifer disgyblion yn cynyddu

<u>Defnydd yr ardal o adeiladau</u>

- Brownies
- Dawnsio dawnsfa
- Man ymgilio / canolfan i'r gymdeithas
- Cylch meithrin
- Cyfarfod cogyddion sirol – oherwydd y lle sydd ar gael
- Gweini prydau i Ysgol yr Wyddfid ar gyfer GYC
- Y Cylch meithrin nawr yn agored trwy'r dydd

<u>Materion addysgol</u>

- Ysgol gynhwysol
- Uned GYC blynyddoedd cynnar yn yr ysgol
- Dosbarthiadau llai
- Mae hunaniaeth yn cael ei golli mewn ysgol fwy
- Sefydlogrwydd
- Grŵp cefnogi ADY
- Gweithgareddau ar ôl ysgol – Urdd / clwb garddio etc
- Ymweliadau addysgol – tramor, Llundain, Caerdydd
- Cysylltiadau Ewropeaidd (Comenius)
- Ethos unigryw – asiantau proffesiynol / allanol yn ymweld yn rheolaidd

Adeiladau ac asedau

- Mynediad un lefel
- Pryder – gwariant ar yr ysgol tra mae cynlluniau'r cael eu trafod
- Dysgu y tu allan – Grant gan y Cynulliad
- Mynediad anabl a thoiledau
- Derbynfa ac ystafell gotiau newydd / toiledau i gynnwys diogelwch
- Camerâu cylch cyfyng – darparu diogelwch i ddisgyblion a staff
- Ysgol yn gallu darparu ystafell TGC
- Storfa beiciau
- Dwy neuadd at ddefnydd yr ysgol

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Ynghanol y gymdeithas
- Hanes – cenedlaethau o deuluoedd
- Cyflogaeth leol
- Gwasanaethau carolau / diolchgarwch
- Y Gwasanaeth Ymgynnwys Cymdeithasol yn cynnig profiad i ddisgyblion ifanc
- Mae'r ysgol/adeiladau o fewn yr ardal gymunedol
- Lleoliad yn annog disgyblion i ddod yn eco cyfeillgar
- Yr ysgol yw'r unig agwedd sy'n weddill i'r plant i gadw'r gymdeithas efo'i gilydd
- Lloches cymorth merched Aberconwy
- Cyswllt da â'r heddlu lleol

Ysgol Tudno

Anghenion a Lles plant

- Dosbarthiadau llai
- Mwy cyfeillgar

- Staff yn gwybod enwau ac anghenion unigol pob plentyn
- Plant yn adnabod ei gilydd mewn amgylchedd cyfeillgar
- Anghenion addysgol yn cael eu cyfarfod oherwydd dosbarthiadau llai
- Ymdeimlad o berthyn a chymdeithas
- Gwybodaeth dda o gefndir teuluol
- Parhad staff
- Gallu cynnig cefnogaeth arbenigol
- Cofrestr galluog a thalentog
- SALT's
- Amgylchedd diogel a glân – sydd â lle i addasu
- Cyngor ysgol ac is-bwyllgorau bywiog

<u>Defnydd yr ardal o adeiladau</u>

- Cylch meithrin yn defnyddio adnoddau'r ysgol
- Chwe chlwb ar ôl ysgol
- Clwb brecwast
- Asda
- Peugeot
- Heddlu, y frigâd dân, gwyliwr y glannau
- Tudno yn ganolfan argyfwng
- Lleoliad canolog

<u>Adeiladau ac Asedau</u>

- Adeilad hanesyddol
- Wal ddringo
- Dim lle symudol
- Digon o dir

- Lle natur
- Ystafell TG
- Ystafell gelf
- Gellir ei addasu ar gyfer mynediad i'r anabl
- Adnoddau parcio
- Ysgol ddiogel

Materion addysgol

- Adroddiad arolwg ardderchog (Hyd 08)
- Adnoddau arbennig dda
- Cwricwlwm estynedig (gwerth ychwanegol)
- Staff ymroddedig – gweithio'n galed
- Uwch law'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer canlyniadau/targedau diwedd cyfnod allweddol
- Ysgol beilot ar gyfer 'snag' – grŵp gweithredu maeth ysgol – Ysgolion iach
- Trydydd gylch – asiantaeth sgiliau sylfaenol
- Ysgol 'Eco'
- Ysgol Masnach Deg
- Rhan o gynllun y wasg
- Enillwyr celf cenedlaethol yr Urdd
- Gweithgareddau anturus

Materion cymdeithasol

- Canolfan adnoddau – AAA
- Ardal 1
- Calon y gymdeithas
- Plant PDG
- Plant go iawn

- Plant o amrywiaeth o gefndiroedd – integreiddio'n dda
- Cybiau
- CRhA cryf
- Corff llywodraethol llawn

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Cyswllt clos â busnesau lleol – Asda, M&S, Peugeot
- Cyswllt ag eglwysi lleol
- Cyswllt ag elusennau lleol
- Cyswllt â'r henoed
- Ysgol Masnach Deg
- Wromhout – cysylltiadau gefeillio
- Miss Alice – tywysoges Llandudno
- Tudno yn ei flodau
- Rhan o dîm chwaraeon lleol – pêl droed, rygbi, criced
- Tudno FM
- Cynllun cymdogaeth yr heddlu
- Croesewir ymwelwyr â'r ysgol yn rheolaidd
- Ymwela disgyblion â busnesau ac amwynderau lleol
- Ail gylchu a chompostio
- Cefnogi cynlluniau a digwyddiadau lleol

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod; cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Wal pryderon/syniadau

- Mae ysgolion gorlawn yn effeithio ar addysg
- Mae'r gofod sydd ar gael yn broblem
- Y sefyllfa bresennol yn gweithio

- Pam gwario'r arian newydd ar yr ysgolion sy'n bodoli ?
- Nid yn sicr a fyddai plant o'r ddwy ysgol yn mynd i ysgol newydd
- Y ddwy ysgol yn cydweithio'n dda yn bresennol
- Mae lleoedd gwag yn gyfle
- Mae ystyriaethau traffig yn bwysig
- Pryderon ynghylch bod ysgolion yn rhy fawr